

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 3, Awst, 2020 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol:** Gwyn (GW) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Dwynwen (DP), Dilys (DAP), Steve (SW), Iona (IE), Richard (RR), Gareth (GER), Iolo ap Gwynn (IAG), Gareth (GER), Eirwen (EW)

**Ymddiheuriadau:** Raymond, Richard

<b>1.</b>	<b><u>CYHOEDDIADAU</u></b>	<p>Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn ymuno yn y cyfarfod arbennig a alwyd i drafod ail-ddechrau rhaglen weithgareddau'r Clwb a diolchodd i'r ddau Iolo am eu gwaith yn trefnu'r cyfarfod.</p>	
<b>2.</b>	<b><u>ASESU A RHEOLI RISG AR DEITHIAU CERDDED</u></b>	<p>Cyflwynwyd dogfen gan yr Ysgrifennydd Gweithgareddau (EO) yn amlinellu camau y gellid eu cymryd i leihau unrhyw risg o ledaenu y feirws Covid19 wrth ail-ddechrau cynnal teithiau'r Clwb.</p> <p>Cafwyd trafodaeth lawn ar y ddogfen ac roedd y mwyafrif yn cytuno y dylid ymdrechu i ail-ddechrau teithiau'r Clwb ond bod angen bod yn bwylllog a gofalus wrth wneud hynny. Er bod y cyfyngiadau wedi eu llacio a Llywodraeth Cymru yn caniatáu i hyd at 30 o unigolion o wahanol gartrefi gwrdd yn yr awyr agored ond cadw pellter cymdeithasol roedd consensws y byddai grŵp o 30 yn rhy fawr ac anodd ei reoli a bod raid ystyried problemau parcio ac ati ac y dylid cael teithiau hefo grwpiau llai yn y cychwyn</p> <p>Cytyunwyd</p> <p>(i) Derbyn y ddogfen asesu a rheoli risg a mabwysiadu y canllawiau ynddi ar gyfer rheoli risgiau o'r feirws Covid19 wrth ail-ddechrau cynnal teithiau'r Clwb gan nodi y pwyntiau canlynol hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Deuddeg fydd yr uchafswm a ganiateir i fynychu unrhyw daith a drefnir gan y Clwb am y tro</li><li>• Bydd raid i bod aelod sy'n dymuno dod ar daith hysbysu'r arweinydd o'i fwriad erbyn nos Fercher cyn y daith a hefyd darparu ei fanylion cyswllt ac ati. Bydd yr arweinydd wedyn yn cadarnhau fod lle wedi ei gadw ar y daith i'r aelod neu fod y daith yn llawn.</li><li>• Am mai nifer cyfyngedig a ganiateir ar bob taith, bydd yr Ysgrifennydd Gweithgareddau yn ceisio trefnu 2 daith wahanol ar benwythnosau er mwyn sicrhau bod digon o gyfloedd i aelodau gael dod allan ar daith ac os yn bosib gellid cael teithiau o natur amrywiol ar yr un diwrnod</li><li>• Bod disgwyl i bob aelod ddod a chyflenwad o ddiheintydd gyda hwy ar bob daith</li></ul> <p>(ii) Bydd EO yn trefnu rhaglen yn seiliedig ar y drefn yma am gyfnod o 2 fis i gychwyn ym mis Medi</p> <p>(iii) bydd y drefn yma yn weithredol i deithiau'r Gogledd, De a rhai dydd Mercher</p> <p>(iv) Gan fod yna niferoedd sylweddol wedi bod yn mynychu teithiau dydd Mercher, dylai EO drafod hefo Haf y posibilrwydd o gynnal taith dydd Mercher ddwywaith yn ystod y mis er mwyn rhoi cyfle i gymaint â phosib ei mynychu a cyn belled â bod arweinydd y daith yn cytuno.</p> <p>(iv) Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r drefn yn ei gyfarfod arferol nesaf yn nechrau Hydref i weld sut y mae wedi gweithio ac ar sail hynny a'r sefyllfa gyfredol gyda'r pandemig a'r canllawiau mewn grym ar y pryd bydd yn penderfynu sut i symud ymlaen.</p>	
<b>3.</b>	<b><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2020</u></b>	<p>Ystyriwyd sut y gellid cynnal y cyfarfod blynyddol eleni gan fod cryn amheuaeth os y gellid ei gynnal yn ei ffurf arferol o dan yr amgylchiadau presennol.</p>	

	<p>Yn sgil hyn trafodwyd os y dylid ceisio cael y cyfarfod eleni drwy gyfuniad o drefn gyrru gwybodaeth i'r aelodau drwy e-bost a chael cyfarfod syml drwy ddefnyddio offer Zoom. Rhagwelwyd y byddai'r trefniant yma yn digwydd fel a ganlyn:</p> <p>a. Ysgrifennydd Cyffredinol i yrru rhaglen swyddogol drwy e-bost a'r swyddogion i hysbysu'r aelodaeth am eu gweithgareddau hefyd drwy e-bost.</p> <p>b. Am eleni gofyn i swyddogion geisio osgoi codi materion cynhennus a fyddai angen trafodaeth a phleidlais er mwyn hwyluso'r drefn.</p> <p>c. Gall unrhyw aelod wedyn ymateb i unrhyw fater a godir drwy e-bost</p> <p>ch. Cael cyfarfod drwy gyfrwng Zoom i gadarnhau unrhyw benderfyniadau sydd angen eu gwneud ac i ddatrys unrhyw faterion a godwyd yn ystod y broses na ellir gwneud hynny drwy e-bost.</p> <p>Cytunwyd y dylid ceisio cynnal y cyfarfod blynyddol yn unol a'r drefn a argymhellir uchod a rhoi sylw i'r mater yn y cyfarfod nesaf.</p>	
4.	<p><b><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></b></p>	
	<p>Adroddodd EO</p> <p>a. byddai'n symud ymlaen i lunio rhaglen o deithiau ar gyfer Medi a Hydref yn seiliedig ar y drefn a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth yn eitem 2.</p> <p>b. byddai maes o law yn dechrau trafodaeth gyda GER a Maldwyn ar gynnal wythnos y Clwb yn yr Alban yn Chwefror 2021. Er nad oes unrhyw sicrwydd beth fydd y sefyllfa bryd hynny credai y dylid dechrau ar y gwaith trefnu a gweld sut mae pethau'n datblygu. Roedd yn ffafrio rhoi ystyriaeth i ddychwelyd i Crianlarich gan fod bosib defnyddio yr un gwesty ac roedd digonedd o deithiau posib yn yr ardal. Byddai yn trafod hyn hefo'r trefnwyr.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i EO am ei holl waith yn llunio'r canllawiau a threfnu rhaglen weithgareddau.</p>	
5.	<p><b><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></b></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar nos Lun, 5 Hydref, 2020 drwy gyfrwng Zoom.</p>	